

Medrwn Môn

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



3. Gweithio gydag eraill

3.4 Compactau

Beth yw compact?

Protocol yw compact, neu god ymarfer, sy'n nodi'r egwyddorion y bydd asiantaethau statudol (fel awdurdodau lleol, y gwasanaeth iechyd a'r heddlu) a'u partneriaid gwirfoddol a chymunedol (fel y cyngor gwirfoddol sirol, y swyddfa cyngor ar bopeth, trafniadaeth gymunedol, a'r ganolfan wirfoddoli) yn eu dilyn wrth ddelio â'i gilydd. Ei bwrpas yw nodi'n glir, datblygu a gwreiddio cysylltiadau da rhwng y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol mewn ardal ddaearyddol benodol.

Pam cael compact lleol felly?

Ar y cyfan, mae'r berthynas rhwng y sector gwirfoddol a chymunedol, a'r sector statudol, eisoes yn rhagorol. Mae llwyddiannau lleol fel rheol yn seiliedig ar greu perthynas dda rhwng unigolion. Ond wrth i bobl adael a rhai newydd ymuno, mae angen i fudiadau wneud yn siŵr bod y berthynas lwyddiannus hon yn parhau. Mae ysgrifennu a chytuno ar yr egwyddorion o fudd mawr i bobl sy'n ymuno o'r newydd.

Mae pob cyngor lleol yng Nghymru yn gyfrifol am helpu i hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ei ardal drwy baratoi Strategaeth Gymunedol.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob cyngor lleol greu gweledigaeth ar gyfer datblygiad tymor hir ei ddinas, tref neu

ardal. Ond er mwyn cynhyrchu'r strategaeth hon, yn gyfreithiol rhaid iddynt ymgynghori a gweithio gyda'r bobl lleol.

Mae y rhan fwyaf o gynghorau eisoes wedi sefydlu Partneriaeth Strategol Leol sy'n cynrychioli'r holl bartneriaid statudol a gwirfoddol yn y ddwy ardal. Mae y rhan fwyaf o'r Partneriaethau hyn yn ymuno â chompact eu hardal leol, sy'n delio gyda chyllid, ymgynghori, datblygu polisi, a meysydd ymarfer da eraill. Mae'n cynnwys ymrwymadau i'r partneriaid cyhoeddus ac i'r partneriaid gwirfoddol a chymunedol. Er mai dogfen sirol ydyw fel rheol, mae'r partneriaid fel arfer yn datblygu cynllun gweithredu compact lleol fel y gellir ei deilwrio i weithio orau i'w hardal leol.

Fel arfer, beth fydd cynllun gweithredu compact lleol yn ei wneud?

1. Cyfathrebu: codi ymwybyddiaeth o'r compact a datblygu 'protocol cyfathrebu' ar gyfer y cyfranogwyr i gyd, fel ein bod i gyd yn siarad gyda'n gilydd.

2. Ymuno: annog mwy o fudiadau gwirfoddol a chymunedol i ymuno â'r compact, fel bod yr holl chwaraewyr allweddol yn lleol yn rhan o deulu'r bartneriaeth.

3. Cynrychioli: rhesymoli partneriaethau a grwpiau thema, fel bod mudiadau gwirfoddol a chymunedol yn gallu anfon cynrychiolwyr priodol.

4. Ymgysylltu: defnyddio potensial y sector gwirfoddol a chymunedol i ymgysylltu â'r Bartneriaeth Strategol Leol, fel bo'r bartneriaeth yn parhau i adlewyrchu ei rhanddeiliaid i gyd.

Beth y mae'n ei olygu?

Mae ymuno â'r compact yn dangos bod eich mudiad yn ymrwymedig i weithio'n gadarnhaol gydag eraill. Os ydych yn gysylltiedig â grŵp gwirfoddol neu gymunedol, gall y compact lleol eich helpu. Yn y rhan fwyaf o siroedd, mae eisoes wedi arwain at gydweithio rhwng y cyngor gwirfoddol sirol ac awdurdodau lleol, ar ystod eang o faterion.

Os ydych yn gorff statudol, gall y compact lleol eich helpu chithau hefyd. Mae'n golygu bod eich perthynas gyda'r sector gwirfoddol a chymunedol yn cael ei chydabod a'i dathlu, ac y gallwch ddefnyddio 'rhwydwaith gwybodaeth' y sector.

Er enghraifft, yn y rhan fwyaf o siroedd, mae'r cyngor gwirfoddol sirol wedi sefydlu gweithdai gyda grwpiau gwirfoddol fel bo'r awdurdodau lleol perthnasol yn gallu cynnwys mwy o bobl yn natblygiad eu polisiau. Mewn rhai ardaloedd, mae cysgodi gwaith rhwng y sector gwirfoddol a'r Ymddiriedolaethau Iechyd Sylfaenol yn dysgu pethau newydd i bawb.

Gwybodaeth bellach

Compact y Sector Gwirfoddol
www.wales.gov.uk

The Compact
Gwybodaeth gyffredinol am
Gompactau yn Lloegr
www.thecompact.org.uk

Compact Amgylcheddol Cymru
www.walesenvironmentalcompact.org

Compact rhwng Cyngor Celfyddydau
Cymru a sector y diwylliannau
gwirfoddol yng Nghymru.
www.voluntaryarts.org

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Medrwn Môn

Uned 5, Parc Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7XA
Elusen Gofrestredig 1088828

Ffôn: 01248 724944
Ffacs: 01248 750149

post@medrwnmon.org
www.medrwnmon.org

Cynhyrwyd gan WCVA, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 04/12/2009



Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk